## PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 5 Chwefror 2003 |
| **Amser:** | 9.15am tan 12.15 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

## STRATEGAETH DIOGELWCH AR Y FFYRDD

### Diben

1. Rhoi crynodeb i'r Pwyllgor o'r prif themâu a'r camau gweithredu sydd wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru a lansiwyd ar 23 Ionawr gan y Gweiniog dros yr Amgylchedd.

### Crynodeb

2. Mae'r Aelodau wedi cael copi o'r Strategaeth a'r Crynodeb gweithredol. Mae'r ddwy ddogfen i'w gweld ar y wefan.

### Y Cefndir

3. Mae Cynllun Cymru 2001 yn nodi mai un o'r blaenoriaethau yw ' gwneud y ffyrdd yn fwy diogel drwy gyfrwng ein Strategaeth newydd ar gyfer Diogelwch ar y Ffyrdd a datblygu cymdogaethau mwy diogel.'

4. Yn 2000, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ar gyfer y DU, sef "Tomorrow's Roads, Safer for Everyone" sy'n gosod targedau heriol ar gyfer lleihau nifer y damweiniau erbyn 2010. Maent yn cynnwys gostyngiad o 40% yn nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol, a gostyngiad o 50% yn nifer y plant sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol o'u cymharu â chanol y nawdegau.

5. Cyhoeddwyd dogfen at ddiben ymgynghori â'r cyhoedd ym mis Medi 2001. Yna, cafodd y Strategaeth ei pharatoi ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a'r sylwadau ychwanegol a wnaed gan y Pwyllgor ym mis Mawrth.

### Y Strategaeth

6. Prif nod y Strategaeth yw lleihau'r perygl gwirioneddol a'r perygl tybiedig ar ffyrdd Cymru er mwyn hybu mynediad diogel a chynaliadwy i bob aelod o'r gymdeithas. Cafodd nifer o amcanion allweddol eu nodi:

- Gwneud y ffyrdd yn fwy diogel i blant - yn enwedig i'r rhai sy'n cerdded ac yn seiclo.
- Hybu dulliau mwy diogel o ddefnyddio'r mathau o drafnidiaeth lle mae pobl yn fwy "agored i niwed", sef cerdded, seiclo, beicio modur a marchogaeth.
- Gostwng y nifer sy'n gyrru'n rhy gyflym neu'n rhy araf
- Targedu arferion gyrru gwael eraill, sef defnyddio ffôn symudol, gyrru ac yfed, gyrru dan ddylanwad cyffuriau a gyrru tra'n teimlo'n flinedig.

7. Mae'r Strategaeth yn amlinellu rhaglen ymarferol, sydd wedi'i blaenoriaethu o'r presennol tan 2010, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol, yr heddlu a phob corff ac unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros ddiogelwch ar y ffyrdd. Mae’r Strategaeth hefyd yn helpu cymunedau lleol i ddatblygu parthau cartref. Yn y pen draw, y nod yw gostwng nifer y damweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru a'i gwneud yn wlad sy'n fwy diogel i fyw a gweithio ynddi.

8. Ceir copi o'r rhaglen weithredu y mae'r Strategaeth yn ei disgrifio yn Atodiad A.

**Cydymffurfio**

9. Trosglwyddwyd A39(1) o Ddeddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 i'r Cynulliad o dan y Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau. Mae hyn yn rhoi'r pwer i hybu diogelwch ar y ffyrdd a chaiff ei arfer ar yr un pryd gan yCynulliad a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth. Cafodd hyn ei ddirprwyo i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Cafodd costau cyhoeddi'r Strategaeth eu talu o'r gyllideb ar gyfer costau'r rhaglen bresennol. Caiff grant arbennig o £ 6,746,000 (gan ddibynnu ar gytundeb y Cynulliad yn y cyfarfod llawn ar 5 Mawrth) ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol yn 2003-04 i'w helpu i gyflawni'r camau gweithredu a amlinellir yn y Strategaeth. Mae'r Awdurdodau eisoes yn elwa o'r Grant Arbennig o £5,738,000 a roddwyd iddynt eleni ac o'r £1.5 miliwn ychwanegol a gafodd eu dyrannu er mwyn iddynt fwrw ymlaen â'r Cynllun Gyrru Arafach, Strydoedd Saffach. Bydd gwerthusiad o'r prosiectau'n cael eu cynnal gyda golwg ar sicrhau gwerth am arian.

**Themâu trawsbynciol**

11. Mae'r Strategaeth wedi'i llunio yng nghyd-destun cynllun datblygu cynaliadwy

y Cynulliad a'i ymrwymiad i fynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol a chyfle cyfartal. Mae'r Fframwaith Trafnidiaeth wedi darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer y Strategaeth i Gymru.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

12. Cynnig unrhyw sylwadau ar roi'r Strategaeth ar waith ledled y wlad.

**Pwynt Cyswllt**

Meryl James, Yr Is-adran Polisi Trafnidaeth, est 6502

Meryl.james@wales.gsi.gov.uk

**ANNEX A**

Y Rhaglen Weithredu

1.19 Ceir crynodeb isod o'r rhaglen weithredu a'r dyddiad targed ar gyfer ei

gweithredu a gynhwysir yn y strategaeth:

| Gweithredu | Prif Bartner | 2003 - 2005 | 2006 - 2010 |
|---|---|---|---|
| Adolygu’r trefniadau sefydliadol presennol a gwneud argymhellion ar strwythur diwygiedig. | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>WATO | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sefydlu Fforwm Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>RoSCoW<br><br>RoSPA<br><br>Awdurdodau lleol<br><br>Yr Heddlu<br><br>Y Sector Iechyd | 3 | |
| Sefydlu gwefan Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru i ddarparu ffynhonnell dan un to o wybodaeth am brosiectau ymarferol ar ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, ystadegau diogelwch ar y ffyrdd, strategaethau lleol ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd, adroddiadau ymchwil a dolenni i wefannau eraill ar ddiogelwch ar y ffyrdd. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Cynhyrchu adroddiad blynyddol ar fentrau diogelwch ar y ffyrdd. | Fforwm Diogelwch<br><br>ar y Ffyrdd yng Nghymru | 3 | |
| Cynhyrchu strategaeth leol o ran diogelwch ar y ffyrdd drwy ymgynghori â chymunedau lleol | Awdurdodau lleol | 3 | |

| Gweithredu | Prif Bartner | 2003 - 2005 | 2006 - 2010 |
|---|---|---|---|
| Cynhyrchu adroddiad cynnydd blynyddol ar wariant ar ddiogelwch ar y ffyrdd – wedi ei gysylltu â gostwng neu atal anafiadau i bobl. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Ystyried penodi staff i roi prosiectau strategaeth diogelwch ar y ffyrdd ar waith ar lefel leol. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Darparu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu staff mewn diogelwch ar y ffyrdd. | Awdurdodau Lleol | | 3 |
| Sefydlu cyllideb benodol o 100,000 y flwyddyn. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Archwilio'r posibilrwydd o gasglu data am wrthdrawiadau ac anafiadau i bobl o gofnodion ysbytai a chwmnïau yswiriant a ffynonellau eraill. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Ymddiriedolaethau'r<br><br>GIG | 3 | |
| Astodio dichonoldeb monitro a chyhoeddi cyfraddau anafiadau i bobl yn seiliedig ar swm y teithio drwy ddulliau eraill. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | | 3 |
| Sefydlu "hierarchaeth ffyrdd" ar gyfer ffyrdd trefol, yn seiliedig ar asesiad manwl o symudiadau a llinellau dymuniadau holl ddefnyddwyr y ffyrdd, fel rhan o Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol a Chynlluniau Datblygu Unedol. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Dylai strategaethau diogelwch lleol ddefnyddio'r dulliau ardal gyfan a gweithredu ar ffyrdd penodol fel rhan hanfodol o'u cynlluniau i leihau anafiadau i bobl. | Awdurdodau Lleol | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylai strategaethau diogelwch ar y ffyrdd pob awdurdod lleol gynnwys ystod eang o feini prawf ar gyfer asesu cynlluniau diogelwch wedi eu seilio ar flaenoriaethau lleol acymgynghori â chymunedau. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Ymgymryd ag arolygon cyflymder yn rheolaidd mewn ymateb i broblemau y tynnwyd sylw atynt gan gymunedau lleol. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 – 2005** | **2006 - 2010** |
|---|---|---|---|
| Mynd i'r afael â phryderon cymunedau drwy brosiectau adfywio cymunedau (megis Cymunedau'n Gyntaf) a fforymau lleol ar Ddiogelwch ar y ffyrdd. | Awdurdodau lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Ystyried defnyddio hierarchaeth i ddefnyddwyr ffyrdd trefol ar gyfer cynllunio a gweithredu cynlluniau trafnidiaeth a defnydd tir. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Gwneud ymchwil i'r cysylltiadau rhwng anafiadau i blant sy'n cerdded ac amddifadedd cymdeithasol ac achosion gwrthdrawiadau. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Dynodi prosiectau diogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd difreintiedig (yn seiliedig ar ganlyniadau'r astudiaeth) a'u rhoi ar waith. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Astudiaeth ymchwil ar batrymau anafiadau i blant gan ganolbwyntio ar bwrpas y daith. | Llywodraeth Cynulliad Cymru | 3 | |

| | | |
|---|---|---|
| Parhau i roi cefnogaeth ariannol i gynlluniau Llwybrau Diogel i'r Ysgol ar yr amod bod y canlyniadau'n cael eu monitro a'u gwerthuso'n foddhaol. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 |
| Sefydlu cronfa ddata o arferion da o ran teithio i'r ysgol a mentrau diogelwch ar y ffyrdd. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 |
| Rhoi cymorth i ysgolion i gynhyrchu Cynlluniau Teithio. | Cydlynwyr<br><br>Cynlluniau Teitho | 3 |
| Adolygu addysg diogelwch ar y ffyrdd i asesu'r pwyslais ar sgiliau ymarferol. | Awdurdodau lleol<br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 |
| Gosod nodau clir ar gyfer darparu addysg diogelwch ar y ffyrdd yn seiliedig ar y sgiliau y mae plant sy'n cerdded a beicio eu hangen. | Awdurdodau Lleol | 3 |
| Cyhoeddi arweiniad ar brosiectau diogelwch ar y ffyrdd sy'n seiliedig ar sgiliau. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 |
| Sefydlu Clybiau Traffig i Blant<br><br>drwy Gymru gyfan. | Awdurdodau Lleol | 3 |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 - 2005** | **2006 -2010** |
|---|---|---|---|
| Datblygu camau wedi'u targedu ar gyfer dysgu diogelwch ar y ffyrdd i bobl ifanc a fydd yn:<br><br>•Asesu'r hyn sy'n cael ei ddysgu ar hyn o bryd.<br><br>•Nodi arferion da (yn enwedig pynciau a dulliau y mae disgyblion yn eu cael yn ddiddorol).<br>•Ymgynghori ag athrawon am yr adnoddau y maent yn credu y mae eu hangen arnynt.<br><br>•Adolygu a gwella'r adnoddau sydd ar gael i athrawon.<br><br>•Gwerthuso canlyniadau addysg diogelwch ar y ffyrdd drwy arolwg o ddisgyblion. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Prifathrawon<br><br>Llywodraethwyr<br><br>Undebau Athrawon | | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Monitro'r ymgyrch Cydlynydd Hyfforddiant i Blant sy'n Cerdded | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Rhoi'r cwrs medrusrwydd beicio sylfaenol ar gael yn ehangach mewn ysgolion. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd ar ddiogelwch sy'n defnyddio diwylliant yr ifanc i fynd i'r afael â phroblem pwysau gan gr•p cyfoedion. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | | 3 |
| Hyrwyddo cyrsiau sgiliau beicio ar ffyrdd. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Clybiau Ieuenctid<br><br>a sefydliadau ieuenctid | 3 | |
| Cynnal Archwiliadau Diogelwch ar y Ffyrdd i Blant. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Ystyried darparu hyfforddiant ychwanegol i weithwyr proffesiynol diogelwch ar y ffyrdd ar faterion diogelwch ar y ffyrdd i blant a gweithdrefnau archwilio. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Sicrhau bod pob polisi a strategaeth cludiant yn cael eu harchwilio am eu heffaith ar blant. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | | 3 |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 - 2005** | **2006 – 2010** |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwneud ymchwil o agmylchiadau gwrthdrawiadau cerbydau modur sy’n ymwneud â phlant. | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>Ymddiriedolaethau ac ysbytai’r GIG<br><br>Cwmnïau yswiriant | 3 | |
| Rhoi canlyniadau’r ymchwil ar waith drwy ymgyrchoedd addysg a gorfodaeth. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Yr Heddlu | | 3 |
| Diffinio hierarchaeth ar gyfer ffyrdd nad ydynt yn adeiledig er mwyn datblygu strategaeth rheoli cyflymder sy’n dynodi safleoedd a ffyrdd ar gyfer gweithredu mesurau rheoli traffig. | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Parhau i ddefnyddio atebion dyfeisgar mewn safleoedd neu ar ffyrdd lle y mae angen gosod cyfyngiad cyflymder is am resymau diogelwch. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Datblygu prosiect peilot i brofi ystod o arwyddion eglurhaol i’w defnyddio ar ffyrdd nad ydynt yn adeiledig. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Sefydlu mwy o barthau 20mya. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Datblygu cynllun peilot o barthau 20mya gan ddefnyddio dulliau gwahanol:<br><br>• Arwyddion yn unig<br><br>• Nodweddion porth<br><br>• Mesurau arafu traffig/ailddosbarthu ffyrdd | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Sicrhau mai 20mph ddylai’r cyflymder arferol fod mewn datblygiadau preswyl newydd oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn bodoli. | Awdurdodau Lleol | 3 | |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu arwyddion cyfyngiadau cyflymder, yn enwedig wrth byrth. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 |
| Ystyried cyflwyno mesurau arwyddo a dylunio amgylcheddol mewn ardaloedd adeiledig fel mesurau cyflenwol er mwyn rhoi neges gyson i yrwyr. | Awdurdodau Lleol | 3 |
| Cynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd i dynnu sylw at y cyfiawnhad dros gynlluniau diogelwch penodol a'u manteision. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 |

| **Gweithredu** | **Prif Bartner** | **2003 – 2005** | **2006 - 2010** |
|---|---|---|---|
| Ymchwilio i bryderon mwy cyffredinol cymunedau yngl•n â chyflymder gormodol a chynhyrchu strategaeth addysg ar gyfer rheoli cyflymder i gefnogi pob cynllun peirianyddol a gorfodi. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth Cynulliad Cymru | 3 | |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar faterion a manteision rheoli cyflymder yn cael ei darparu ar y wefan ar ddiogelwch y ffyrdd yng Nghymru. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Astudiaeth o gerddwyr oedrannus a cherddwyr â phroblemau symudedd a anafwyd er mwyn canfod tueddiadau cyffredin a ffactorau posibl a allai fod wedi cyfrannu at hynny. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Grwpiau Anabledd | 3 | |
| Ystyried anghenion cerddwyr oedrannus a cherddwyr sydd â phroblemau symudedd o fewn strategaethau lleol ar ddiogelwch ar y ffyrdd. | Awdurdodau Lleol | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu ymgyrch genedlaethol i dynnu sylw at anghenion cerddwyr oedrannus a cherddwyr sydd â diffygion symudedd. | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | | 3 |
| Neilltuo digon o gyllid i atgyweirio a chynnal a chadw llwybrau troed. | Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Datblygu cyrsiau hyfforddi ymarferol ar feicio ar ffyrdd i bobl ifanc ac oedolion. | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Awdurdodau Lleol<br>Grwpiau<br>Defnyddwyr<br>Beiciau | 3 | |
| Ystyried rhoi cyrsiau hyfforddiant beicio ymarferol ar waith fel rhan o gynlluniau teithio cwmnïau ac ysgolion. | Cydlynwyr<br>Cynlluniau Teithio<br>Awdurdodau Lleol<br>Cyflogwyr<br>Ysgolion | | 3 |
| Ystyried sut y gallai gwrthdrawiadau a damweiniau ar lwybrau beicio oddi ar ffyrdd gael eu monitro a’u cofnodi. | Awdurdodau Lleol<br>Grwpiau seiclo<br>lleol<br>Ysbytai | 3 | |
| **Gweithredu** | **Prif Bartner** | **2001 - 2005** | **2006 - 2010** |
| Ystyried darparu cyfleusterau diogel a chyfleus i feicwyr a cherddwyr mewn cynlluniau ar gyfer priffyrdd newydd. | Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod cyfleusterau diogel ar gyfer beicio a cherdded yn cael hymgorffori i lwybrau y mae ffyrdd newydd yn mynd heibio iddynt. | Awdurdodau Lleol<br>Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Ymgynghori yngl•n ag Arweiniad Statudol a Rheoliadau drafft ar gyfer Parthau Cartrefi a Lonydd Tawel. | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Bydd gwybodaeth a chyngor ar Barthau Cartrefi ar wefan newydd Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Cynorthwyo cymunedau lleol ac awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau Parthau Cartrefi, drwy roi cyngor ar ffynonellau cyllid posibl o ffynonellau ar wahân i drafnidiaeth (megis Cymunedau’n Gyntaf). | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru | | 3 |
| Ystyried mabwysiadu canllawiau dylunio ar gyfer Parthaui Cartrefi a gofyniad ar i ddatblygwyr ddilyn y dyluniadau hyn ar ffyrdd addas mewn datblygiadau newydd fel rhan o’r broses gynllunio. | Awdurdodau Lleol | | 3 |
| Ystyried gwella'r modd y cesglir gwybodaeth am wrthdrawiadau â cheffylau, anafiadau i bobl a methiannau agos. | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru<br>Cymdeithas<br>Geffylau Prydain | 3 | |
| Ymchwilio i'r modd y cesglir gwybodaeth am wrthdrawiadau ac anafiadau sy'n ymwneud â phobl sy’n marchogaeth mewn ffordd Wahanol i Stats 19. | Llywodraeth<br>Cynulliad Cymru<br>Ysbytai | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a gorfodaeth lleol mewn ardaloedd lle y dangosir bod gwrthdrawiadau â cheffylau ac anafiadau i bobl yn broblem. | Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu | | 3 |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 - 2005** | **2006 – 2010** |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth gyrwyr am ddod ar draws popl sy'n marchogaeth drwy ddatblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau lleol<br><br>Cymdeithas<br><br>Geffylau Prydain | 3 | |
| Nodi ffyrdd sy’n cael eu defnyddio’n rheolaidd gan bobl sy’n marchogaeth a rhoi arwyddion priodol ar waith. | Awdurdodau Lleol<br><br>Fforymau<br><br>Mynediad Lleol | 3 | |
| Hyrwyddo hyfforddiant a phrofion ar gyfer pobl sy’n marchogaeth. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Cymdeithas<br><br>Geffylau Prydain | | 3 |
| Cynnal astudiaeth fapio o Wrthdrawiadau sy’n Gysylltiedig â Chwsg er mwyn canfod lleoliadau a nodweddion ffyrdd posibl. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Adolygu'r ardaloedd gorffwys gyda gwasanaethau a ddefnyddir a defnyddio arwyddion rhybuddio. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Codi ymwybyddiaeth gyrrwyr o flinder drwy ymgyrch gyhoeddusrwydd sydd wedi ei thargedu. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu | | 3 |
| Cynnal ymgyrchoedd o bryd i'w gilydd ar beryglon defnyddio ffôn symudol wrth yrru. | Yr Heddlu<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Parhau i weithredu'r gyfraith Yfed a Gyrru drwy gydol y flwyddyn. | Yr Heddlu | 3 | |
| Bydd ymgyrchoedd yn parhau i dynnu sylw at beryglon yfed a gyrru. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu | 3 | |
| Dylai strategaethau lleol o ran Trosedd ac Anhrefn sicrhau bod mesurau i dargedu pobl sy'n yfed a gyrru'n gyson yn cael eu datblygu. | Awdurdodau Lleol<br><br>Yr Heddlu | 3 | |
| Datblygu cyfres o ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd wedi eu hanelu at ddylanwadu ar ymddygiad gan ddefnyddio modelau rôl o'r byd chwaraeon, cerddoriaeth a'r theatr. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | | 3 |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 - 2005** | **2006 - 2010** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mynd ati i hyrwyddo'r cynllun Gyrrwr Dynodedig. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Portman Group | 3 | |
| Cynnal astudiaeth ymchwil o broblem gyrru dan ddylanwad cyffuriau yng Nghymru. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol i wneud pobl yn ymwybodol o beryglon gyrru dan ddylanwad cyffuriau. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Ystyried sut i integreiddio peryglon gyrru dan ddylanwad cyffuriau i mewn i fentrau addysg cyffuriau ac ailsefydlu sy'n bodoli eisoes. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Ystyried sut i sicrhau bod rhaglenni hyfforddi ymarferol cyn dechrau gyrru, ar gael yn ehangach. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Archwilio dichonolrwydd taliadau is ar gyfer pobl sydd wedi gorffen yr hyfforddiant Pass Plus yn llwyddiannus. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Cwmnïau yswiriant | 3 | |
| Cynnal prosiect monitro i asesu effaith prosiectau hyfforddi gyrwyr ar ymddygiad gyrwyr. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | | 3 |
| Dylai Partneriaethau Ansawdd Cludiant gael eu rhoi ar waith o ddifrif naill ai ar raddfa leol neu ranbarthol. | Awdurdodau Lleol<br><br>Y Gymdeithas<br><br>Gludiant<br><br>Cymdeithas<br><br>Cludiant Ffyrdd | 3 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o gynlluniau teithio ysgolion, gwahodd cludwyr i roi cyflwyniadau i blant ar faterion sy’n ymwneud â Cherbydau Nwyddau Trwm. | Awdurdodau Lleol<br><br>Ysgolion<br><br>Cwmnïau cludo | 3 | |
| Cyflwyno ystadegau swyddogol i ddangos ffigurau gwrthdrawiadau ac anafiadau i bobl ar wahân ar gyfer tacsis. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Archwilio'r posibilrwydd o fabwysiadu cod ymarfer cenedlaethol ar gyfer gyrwyr a gweithredwyr tacsis. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Gweithredwyr tacsis | | 3 |

| **Gweithredu** | Prif Bartner | **2003 - 2005** | **2006 - 2010** |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo hyfforddiant uwch i yrwyr fel rhan o gynlluniau teithio cwmnïau ac ymhlith gweithwyr awdurdodau cyhoeddus. | Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Sefydlu cofrestr o sefydliadau sy’n hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant uwch i yrwyr a hysbysebu'r rheiny ar y wefan diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Mynd ati ar y cyd â chwmnïau yswiriant i ymchwilio i'r posibilrwydd o hyrwyddo ysgogiadau ariannol ar ôl y prawf gyrru uwch a chyrsiau hyfforddi eraill. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Cwmnïau Yswiriant | 3 | |
| Bwriadu cwblhau cyfartaledd o 20 cynllun diogelwch lleol bob blwyddyn neu yn ôl yr angen hyd at 2010. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | 3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynlluniau ymarferol i ddefnyddio traffordd yr M4 a chefnffyrdd yr A470, yr A494 a’r A550 yn well a’u rhoi ar waith. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | 3 |
| Cynnal arolwg sampl o adlewyrchedd marciau ffyrdd. | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |
| Dylai'r awdurdodau priffyrdd gynnal adolygiad o'r arwyddion presennol. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Awdurdodau Lleol | 3 | |
| Astudiaeth o wrthdrawiadau ac anafiadau i feicwyr modur mewn ardaloedd gwledig a threfol gan ymgynghori â grwpiau defnyddwyr. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Fforwm Diogelwch<br><br>ar y Ffyrdd yng<br><br>Nghymru<br><br>Awdurdodau Lleol<br><br>Ymddiriedolaethau’r<br><br>GIG | 3 | |
| Cynhyrchu Strategaeth i Gymru ar gyfer beicio modur. | Fforwm Trafnidiaeth<br><br>Cymru<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |

| **Gweithredu** | *Prif Bartner* | **2003 - 2005** | **2006 - 2010** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo dillad sy’n hawdd<br><br>eu gweld. | Grwpiau beiciau<br><br>modur<br><br>Adwerthwyr | 3 | |
| Datblygu ymgyrch gyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr ffyrdd mewn ardaloedd trefol. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | | 3 |
| Parhau i hyrwyddo Bike Safe<br><br>Cymru | Heddluoedd<br><br>Grwpiau beicwyr<br><br>modur<br><br>Cyflogwyr | 3 | |
| Sefydlu a hyrwyddo cofrestr o gynlluniau hyfforddi cymeradwy | Heddluoedd<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Grwpiau beicwyr<br><br>modur | 3 | |
| Cysylltu â chwmnïau yswiriant i archwilio'r posibilrwydd o hyrwyddo gostyngiadau mewn taliadau i yrwyr sy’n ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol. | Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru<br><br>Cwmnïau yswiriant | | 3 |
| Dylai archwiliadau diogelwch ystyried yr effaith ar feicwyr modur fel grwˆp defnyddwyr ar wahân | Awdurdodau Lleol<br><br>Llywodraeth<br><br>Cynulliad Cymru | 3 | |